| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| DYDDIAD | 19 Mehefin 2025 |
| EITEM | GRŴP TASG A GORFFEN POLISI IAITH ADDYSG DRAFFT |
| PWRPAS | Cyflwyno argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen o ran geiriad y polisi drafft |
| CADEIRYDD Y GRŴP TASG A GORFFEN | Cynghorydd Rhys Tudur |
| AWDUR | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynwyd y Polisi Iaith Addysg Drafft gerbron cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Ebrill 2025. Yn ystod y drafodaeth, awgrymodd y Cynghorydd Rhys Tudur addasiadau posib i eiriad y Polisi Drafft.

1.2 Penderfynodd y Pwyllgor:

1. Nodi'r polisi drafft gan nodi'r sylwadau.
2. Croesawu bod y polisi drafft yn mynd i ymgynghoriad.
3. Bod y Pwyllgor yn gwneud cais i'r Fforwm Craffu i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ffurfio grŵp tasg a gorffen, gyda'r brîff i edrych ar eiriad y Polisi Iaith Addysg Drafft gan ystyried os oes angen gwneud awgrymiadau i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor yng nghyfarfod 19 Mehefin 2025.
4. Pe bai'r cais i'r Fforwm Craffu yn llwyddiannus, bod yr Ymgynghorydd Craffu yn anfon e-bost at aelodau'r Pwyllgor yn rhoi cyfle iddynt roi eu henw ymlaen i fod yn aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen.

1.3 Bu i'r Fforwm Craffu (cyfarfod cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu) gymeradwyo'r cais i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ffurfio'r Grŵp Tasg a Gorffen yn seiliedig ar y ddealltwriaeth mai un cyfarfod fyddai'n cael ei gynnal.

1.4 Anfonwyd e-bost at aelodau'r Pwyllgor yn eu gwahodd i roi eu henw ymlaen i fod yn aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen. Rhoddwyd y cyfle i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig sydd gyda phleidlais ar faterion addysg i roi eu henw ymlaen.

1.5 Bu i'r aelodau canlynol roi eu henw ymlaen i fod yn aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen - y Cynghorwyr Jina Gwyrfai, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands a Rhys Tudur.

## 2. TRAFODAETHAU'R GRŴP TASG A GORFFEN

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen ar 2 Mehefin 2025. Rhannwyd y Polisi Iaith Addysg Drafft ac awgrymiadau'r Cynghorwyr Rhys Tudur a Richard Glyn Roberts o ran geiriad y polisi gyda'r rhaglen.

2.2 Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

Iwan Evans, Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol)
Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg
Debbie Anne Jones, Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol
Siwan Llwyd Roberts, Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd
Jennifer Rao, Swyddog Gweithredol Addysg.

2.3 Tywysodd Cadeirydd y grŵp tasg yr aelodau a'r swyddogion drwy'r awgrymiadau gan egluro'r rhesymeg tu ôl i'r addasiadau. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau wneud sylwadau a chynnig addasiadau pellach. Gwahoddwyd swyddogion i wneud sylwadau.

2.4 Nododd aelodau eu gwerthfawrogiad o'r cyfle i drafod geiriad y polisi drafft. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ac am weithio'n agored gyda'r aelodau ar y mater yma. Nodwyd ei fod yn enghraifft dda o sut ddylai bethau weithio.

2.5 Mae nodiadau'r cyfarfod wedi eu cynnwys yn **Atodiad 1**.

2.6 Ynghlwm yn **Atodiad 2**, mae'r polisi drafft gydag argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen o ran addasiadau i eiriad y polisi drafft.

2.7 Mae'r Adran Addysg wedi darparu ymateb i argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor. Gweler yr ymateb yn **Atodiad 3**.

**Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen ac ymateb yr Adran Addysg i'r argymhellion.**